



Mae'r myfyrdod heddiw yn nwylo Emlyn Davies, gyda Carwyn Lloyd Jones yn llywyddu. Eirian a Keith Rowlands oedd yn croesawu, ac Eleri sy'n cyfeilio. Diolch iddyn nhw i gyd.

Yng nghyfarfod bwrdd yr eglwys, enwebwyd **Margaret Pritchard Copley** yn unfrydol i olynu Wendy Reynolds fel ein Cadeirydd am y flwyddyn 2018. Estynnwn ein dymuniadau gorau iddi yn y swydd, yn hyderus y caiff ein cefnogaeth ni i gyd fel eglwys.

**Y Suliau nesaf.....**  
**Chwefror 18eg** – Sul i'r Teulu, dan ofal Lowri a Ceri Anwen. Carey a Loreen y croesawu. Bethan yn cyfeilio

**Chwefror 25ain** – y Parchg. Gethin Rhys gyda Carol Williams yn llywyddu, Sian yn cyfeilio  
**Mawrth 4ydd** - Pentref Creigiau, Bethan yn cyfeilio

**Mawrth 11eg** – Y Parchg. Aled Edwards, Bethan yn cyfeilio  
**Mawrth 18ed** – Sul Teuluol

**Cofiwch am wybodaeth, ewch at y wefan, [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org) neu Gwilym Huws: 07710 237327 [gehpengwern@yahoo.co.uk/](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)**  
**Cofiwch Facebook newydd Tabernacl Efail Isaf a gyrrwch eich cyhoeddiadau at [geraintrees@hotmail.com](mailto:geraintrees@hotmail.com)**

**Merched y Tabernacl**  
 Dydd Iau, Mawrth 22  
 Cinio Gŵyl Dewi yn Caesar's.  
 Cwrdd am 12.30 a bwyta am 1.  
 Enwau i Ros erbyn Mawrth 15 os gwelwch yn dda.


**Angladd D.J. Davies,  
 Tonyrefail**

Diolch i bawb a gyfrannodd at ddiwrnod angladd urddasol iawn ddydd Iau.

**Dathliad Hanesyddol**  
 Ym mis Gorffennaf 2020, bydd yr eglwys yn dathlu 150 mlwyddiant agor drysau'r adeilad presennol am y tro cyntaf yn 1870. Er bod ychydig dros ddwy flynedd tan hynny, byddai'n dda i dderbyn unrhyw awgrymiadau gan yr aelodau ar sut orau i ddathlu'r digwyddiad hanesyddol hwn. Hefyd, os oes gan unrhyw un wybodaeth neu arteffactau allai daflu goleuni pellach ar hanes yr achos a/neu godi'r adeilad, byddai'r Gwilym Huws yn falch o glywed gennych.

## **Grŵp Trafod Cyfnod y Grawys**

Dros y blynyddoedd fe gynhaliwyd 3 neu 4 sesiwn trafod ar brynhawniau Sul cyn y Pasg. Bu rhain yn gyfle da i ni allu holi a thrafod yn agored iawn y materion hynny sy'n codi o sefyllfa'n ffydd a'n cymdeithas. Cynhelir sesiynau eleni am 5 o'r gloch ar brynhawniau Sul Chwefror 25, a Mawrth 4 ac 18 (Does dim clash rygbi yn y rhestr!)



**Côr Caerdydd**  
yn cyflwyno  
**MYFI YW**  
Oratorio o Efengyl Sant Ioan gan  
Derec Williams, Linda Gittins a Penri Roberts

**Bore Sul y Blodau**  
**25.3.18 am 10:45**  
**Capel y Tabernacl, Efail Isaf**  
**CF38 1AP**

**Gwneir casgliad**  
**tuag at**  
**Housing Justice**

